

# CAPIO TALIADAU

yng nghynlluniau cymorth y dyfodol

FUW
UNDEB AMAETHWYR CYMRU

## CAPIO TALIADAU - Y SEFYLLFA BRESENNOL

Yn 2015 cyflwynodd Llywodraeth Cymru ostyngiadau ar gyfer taliadau fferm uwch a chyfyngiad terfynol ar y swm y gallai ffermwr actif ei hawlio trwy Gynllun y Taliad Sylfaenol - taliadau y mae ffermwyr Cymru yn dibynnu arnynt am 80% o'u hincwm.

**Mae 77% o ffermwyr Cymru yn derbyn llai na £20,000 trwy'r Cynllun Taliad Sylfaenol, a'r taliad cyfartalog yw £15,000**

Mae'r system - a elwir yn capio taliadau - yn golygu bod taliadau dros £150,000 yn cael eu lleihau trwy symiau cynyddol ac ni wneir unrhyw daliadau sydd dros £300,000 (Tabl 1).

Fodd bynnag, mae hyn ymhell dros yr hyn y mae mwyafrif ffermwyr Cymru yn ei dderbyn o Gynllun y Taliad Sylfaenol - mae 77% o ffermwyr Cymru yn derbyn llai na £20,000 trwy'r Cynllun Taliad Sylfaenol, a'r taliad cyfartalog yw £15,000.

Hefyd cyflwynwyd system 'Taliad Ailddosbarthu' yn 2015 sy'n lleihau taliadau ar gyfer ffermydd ag ardaloedd mwy ac yn cynyddu'r swm o arian y mae ffermydd llai a chanolig yn derbyn (Tabl 2) - dull y mae modelu yn ei ddangos sydd o fudd i fwyafrif helaeth o ffermydd teuluol Cymru - ar gyfartaledd, maint fferm Cymru yw 57 hectar (141 erw).

*Ni chyflwynwyd unrhyw systemau o'r fath yn Lloegr, sy'n golygu nad oes cyfyngiad i'r hyn y gall ffermydd ac ystadau mwy eu hawlio.*

## YR HYN MAE UAC YN EI GREDU

Mae UAC wedi cefnogi capio taliadau amaethyddol uniongyrchol ers 2007 ar ôl ystyried cyflogau gweithwyr fferm a ffactorau eraill, ar y sail bod hyn yn gwneud y mwyaf o'r arian sy'n mynd i ffermydd teuluol a chymunedau gwledig nodweddiadol Cymru.

**Dylid cynnal a gwella capio taliadau a thaliadau ailddosbarthu ym mholisïau'r dyfodol, ynghyd â rheol 'ffermwr actif' llym**

Am yr un rhesymau, cynigiodd UAC hefyd y dylid caniatáu taliadau ailddosbarthu o dan reoliadau'r UE - a derbyniodd yr UE hyn.

Felly bu **lobïo UAC yn llwyddiannus** i gyflwyno capio taliadau a thaliadau ailddosbarthu yng Nghymru ar y cyfraddau isaf a ganiateir gan Reoliadau'r UE ar y pryd.

Mae UAC yn parhau o'r farn y **dylid cynnal a gwella capio taliadau a thaliadau ailddosbarthu ym mholisïau'r dyfodol, ynghyd â rheol 'ffermwr actif' llym**, i sicrhau bod arian yn mynd i'r ffermydd teuluol sy'n gwneud y cyfraniad mwyaf i economïau a chymunedau gwledig, a dylid gostwng y cyfraddau capio yn amodol ar ystyriaeth ofalus o ffactorau megis nifer y teuluoedd y mae fferm yn ei gefnogi fel partneriaid a gweithwyr.

**Tabl 1: Cyfraddau Capio Taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol**

| | |
|---|---|
| £150,000 i £200,000 | Taliadau wedi'u lleihau gan 15% |
| £200,000 i £250,000 | Taliadau wedi'u lleihau gan 30% |
| £250,000 i £300,000 | Taliadau wedi'u lleihau gan 55% |
| Dros £300,000 | Taliadau wedi'u lleihau gan 100% |

**Tabl 2: Taliadau Ailddosbarthu**

| | |
|---|---|
| Y 54 hectar cyntaf | £232/hectar |
| Hectarau sy'n weddill | £121/hectar |

**Y tri uchaf sy'n derbyn taliadau fferm (uniongyrchol) (BPS) yn y DU yn 2020:**

1. Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (Lloegr) £2,984,000
2. Beeswax Dyson Farming Ltd. (Lloegr) £2,845,000
3. RSPB (Yr Alban) £1,587,000

(Taliad fferm ar gyfartaledd yng Nghymru: £15,000)

---

**Y tri uchaf sy'n derbyn yr holl daliadau gwledig (PAC) yn y DU yn 2020 (gan gynnwys taliadau Rhaglen Datblygu Gwledig, nad ydynt wedi'u capio yn unrhyw un o genhedloedd y DU):**

1. Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol £12,222,000
2. Menter a Busnes £11,194,000
3. RSPB £10,178,000

## BETH SYDD YN CAEL EI GYNLLUNIO AR GYFER DYFODOL CYMRU?

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod ymrwymo i gynnal unrhyw fath o gap talu neu system dalu ailddosbarthu, gan godi pryderon y bydd y cynlluniau cymorth sy’n cael eu cynllunio yn y dyfodol yn arwain at gymryd arian oddi wrth ffermydd teuluol sy’n gweithio’n galed a’i roi i dirfeddianwyr ac elusennau mawr - neu hyd yn oed pobl y tu allan i Gymru.

O’i gyplysu â gwanhau meini prawf cymhwysedd cyfredol y ‘ffermwr actif’ - system sy’n ffafrio ffermwyr go iawn yn hytrach na pherchnogion tir absennol - byddai hyn yn gwneud pethau’n waeth, trwy dynnu hyd yn oed mwy o arian oddi wrth deuluoedd sy’n ffermio a chymunedau gwledig.

**Mae UAC yn credu y byddai hyn yn frad cymdeithasol ac economaidd o ffermydd teuluol a chymunedau Cymru, ac yn gam moesol gwarthus am nôl ar gyfer cymdeithas Cymru.**



## BETH ALLWCH CHI EI WNEUD?

**Cysylltu â’ch Aelod o’r Senedd** i ddweud wrthynt eich bod yn credu bod yn **rhaid** cynnwys capio taliadau, taliadau ailddosbarthu a meini prawf llym ar gyfer ffermwyr actif yn y Mesur Amaeth a fydd yn symud trwy Senedd Cymru dros y flwyddyn nesaf.

Ewch i **www.fuw.org.uk/cy/capio** am fwy o wybodaeth.

FUW
UNDEB AMAETHWYR CYMRU